Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 18 MEHEFIN 2014 am 2.00 o'r gloch** | | **WEDNESDAY, 18 JUNE, 2014 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas

**Llafur / Labour**

J A Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Cadeirydd/Chair), R.Meirion Jones, R G Parry OBE a Dylan Rees

**Grwp Chwyldroad/Revolutionist Group**

Peter Rogers

**R H A G L E N**

1 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd.

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 26 Mawrth, 2014.

4 **AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR** (Tudalennau 5 - 6)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

5 **SICRHAU DEMOCRATIAETH AMRYWIOL MEWN LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

6 **MYNYCHU O BELL** (Tudalennau 21 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

7 **RHEOLIADAU ABSENOLDEB TEULUOL** (Tudalennau 27 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

8 **CYNLLUN HYFFORDDIANT I DDATBLYGU AELODAU 2014/15** (Tudalennau 35 - 42)

I drafod adroddiad a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 8 Mai, 2014.

9 **GRANT DATBLYGU GWEFANNAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED - DIWEDDARIAD** (Tudalennau 43 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dros mewn perthynas â'r uchod.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr D R Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones, R Ll Jones, R G Parry OBE, Dylan Rees a J A Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd<br>Uwch Swyddog Datblygu AD (MW)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol/Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones a'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones |

---

## 1 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Richard Owain Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2014 fel rhai cywir.

## 4 SIARTER DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r cynnydd wnaed o ran cwrdd â gofynion Siarter CLlLC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

Rhoes Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad ar y modd y mae'r Cyngor wedi cwrdd â'r gofynion ac wedi derbyn y Siarter Safonol. Cyflwynwyd plac a thystysgrif i'r Cyngor ar 6 Mawrth 2014 gan Mr Daniel Hurford, Pennaeth Polisi (Gwella a Llywodraethu), CLlLC.

Nododd fod y statws wedi cael ei ganiatáu am gyfnod o 3 blynedd ac roedd hyn yn rhan o raglen waith y Pwyllgor.

Eglurodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y gall y Cyngor, yn ychwanegol at y Siarter Safonol, weithio hefyd tuag at gwrdd â Siarter Lefel Uwch CLlLC, sef dyfarniad sydd newydd gael ei ddatblygu gan CLlLC.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 5 GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ar yr uchod.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd - yn dilyn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Chwefror mewn perthynas â'r ymarfer caffael, bu'n rhaid ail-raglennu gweddarlledu cyfarfodydd. Bydd yr offer yn cael ei osod yn Siambr y Cyngor erbyn diwedd mis Ebrill. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, dyfarnwyd y contract i Public-i. Bydd hyfforddiant ar gyfer Aelodau a'r staff ar system weddarlledu Public-i yn cychwyn ym mis Mai a bydd y system yn hollol weithredol erbyn Mehefin 2014 gan gychwyn gyda'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Mehefin 2014.

Mewn perthynas â mynychu o bell, disgwylir canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith yn y man.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 6 GWEFANNAU AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd - Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn dweud fod Llywodraeth Cymru wedi clustnodi arian i Gynghorau Sir i gynnig grant o hyd at £500 i bob Cyngor Tref a Chymuned, gan gynnwys y rheiny sydd eisoes â gwefan, i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

Nodwyd bod y grant yn un i gynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned i baratoi ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n cynnwys darpariaethau i gynghorau cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar wefan. Yn wreiddiol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau'n dweud fod angen defnyddio'r arian erbyn diwedd Mawrth 2014. Mae'r cyfnod hwn bellach wedi'i ymestyn i 2014/15.

Nodwyd bod y Cyngor yn ymgynghori gydag Un Llais Cymru i sicrhau fod Cynghorau Tref a Chymuned yn defnyddio'r arian sydd wedi cael ei glustnodi.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid diweddaru Clercod y Cynghorau Tref a Chymuned a'u hatgoffa am yr arian grant sydd ar gael.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa gyfredol.**

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AELODAU

Cyflwynodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar 4 Chwefror 2013 ac ar 2 Gorffennaf 2013 ynghylch Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r angen i sicrhau fod trefniadau wedi eu gwneud i ganiatáu i Aelodau baratoi Adroddiad Blynyddol ar eu gwaith.

Nodwyd y gofynnwyd am adroddiadau drafft erbyn 9 Ebrill 2014 gan yr Aelodau gyda golwg ar eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ym mis Mehefin 2014.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa gyfredol fel y caiff ei hamlinellu yn yr adroddiad.**

## 8 RHAGLEN DATBLYGU AELODAU AC ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL

Rhoes yr Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol adroddiad llafar mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Aelodau a'r Adolygiadau Datblygiad Personol.

O ran yr Adolygiadau Datblygiad Personol, dywedodd y Swyddog ei bod yn asesu atborth o'r adolygiadau a wnaed a'r angen i ymgynghori gydag Arweinyddion Grwpiau yn y man.

Byddai adroddiad ar Gynllun Datblygu 2014/15 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y man.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2014/2015

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn dweud mai swyddogaeth y Pwyllgor hwn yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill fel y gellir cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd.

Bydd adroddiad ar waith y Pwyllgor yn ystod 2013/14 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 8 Mai 2014.

Wrth ddatblygu rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2014/15, argymhellir y dylid canolbwyntio ar y meysydd isod:

- Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;
- Gweddarlledu cyfarfodydd a mynychu o bell;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Moderneiddio arferion gweithio;
- Y gyllideb ar gyfer 2015/16 a'i heffaith ar y Gwasanaethau Democrataidd.

Yn ystod chwarter cyntaf 2014/15, cynigir trefnu grŵp ffocws ar gyfer Aelodau er mwyn cael atborth yr Aelodau ar arferion gweithio a'r rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi y bydd y rhaglen waith yn cael ei diweddaru yn y cyfarfod nesaf.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.40 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 18 Mehefin 2014 |
| Teitl: | Amseriad Cyfarfodydd y Cyngor |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Dros Dro |

**1.0 Cefndir**

1.1 Fe ŵyr yr Aelodau bod y mater hwn wedi cael sylw mewn adroddiadau blaenorol i'r Cyngor Sir ar 5 Rhagfyr 2013, 27 Ionawr 2014 a 27 Chwefror 2014. Bydd Aelodau yn nodi fod Rhybudd o Gynigiad wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 8 Mai fel a ganlyn:

- *"Ailystyried amseroedd cyfarfodydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Sgriwtini, Pwyllgorau Lled-farnwrol a phob pwyllgor neu is-bwyllgor arall o'r Cyngor Sir a rhoi sylw i ofynion mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth"*
- *Cyfeirio'r mater i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.*

1.2 Penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r mater i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

1.3 Yn unol â'r uchod, gofynnir i'r Pwyllgor yn awr roi sylw pellach i'r mater a llunio argymhellion ar gyfer y Cyngor Sir.

1.4 Fe ŵyr yr Aelodau fod yr amserlen o gyfarfodydd bellach wedi ei chyhoeddi ar gyfer y cyfnod tan Ebrill 2015 a bod y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn cychwyn fel arfer am 2.00pm. Fel rhan o raglen waith y Pwyllgor i'r dyfodol, efallai y bydd Aelodau yn dymuno cyflwyno sylwadau ar yr amserlen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn sirol nesaf a'r galwadau ar Aelodau.

**2.0 Argymhelliad**

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cyngor ar y mater hwn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd - Dros Dro10 Mehefin 2014**

Papurau Cefndir:-

1) Adroddiad i'r Cyngor Sir 5 Rhagfyr 2013
2) Adroddiad i'r Cyngor Sir 27 Ionawr 2014
3) Adroddiad i'r Cyngor Sir 27 Chwefror 2014

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 18 Mehefin 2014 |
| Teitl: | Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru |
| Awdur: | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd |

**1.0 Cefndir**

1.1 Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Lesley Griffiths, y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, bod Grŵp o Arbenigwyr ar gyfer Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol wedi cael ei sefydlu i:

- Adolygu canlyniadau Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol (arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn etholiadau'r cynghorau sir a chymuned yn 2012)
- Ystyried unrhyw fodd y gellid gwella'r arolwg ei hun a'r lefel o ymateb
- Edrych yn fwy cyffredinol ar broffil llywodraeth leol gyda golwg ar gyflwyno argymhellion ynghylch gwella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn etholiadau lleol 2017

1.2 Cyhoeddwyd adroddiad y Grŵp Arbenigwyr *'Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru'* ar 5 Mawrth 2014. Rhoes Pwyllgor Cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw i'r adroddiad yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth 2014.

**2.0 Argymhellion y Grŵp Arbenigwyr**

2.1 Gwneir 24 o argymhellion yn yr adroddiad – 9 mewn perthynas ag Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol a 15 mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad mewn llywodraeth leol. Caiff argymhellion y Grŵp Arbenigwyr, gan gynnwys ymatebion cychwynnol Llywodraeth Cymru, eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.

2.2 Mae Cyngor Sir Ynys Môn eisoes yn ceisio rhoi sylw i nifer o'r materion a godwyd gan y Grŵp Arbenigwyr mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad mewn llywodraeth leol, fel a nodir isod:

**Argymhelliad 14: Dylai awdurdodau lleol annog ysgolion uwchradd i drefnu i gynghorwyr lleol siarad â myfyrwyr ysgol am eu rôl fel rhan o'r nod "Dinasyddiaeth Weithgar" yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol…**

Mae ‘Llais Ni’ yn brosiect sy’n rhoddi i bobl ifanc ym Môn, rhwng 11 a 25 oed, y cyfle i leisio eu barn a gwneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Mae Llais Ni yn annog pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau a’u hyder i gael mwy o ddylanwad ar y penderfyniadau sy’n cael effaith arnynt ar yr ynys. Ym mis Ebrill 2014, rhoddwyd cyfle i fwy na 30 o bobl ifanc o bob cwr o Ynys Môn gymryd rhan mewn sesiwn Hawl i Holi mewn perthynas â phrosiectau a oedd yn gysylltiedig â’r Rhaglen Ynys Ynni a’u heffaith ar eu bywydau a’u dyfodol. Roedd Albert Owen AS, Rhun ap Iorwerth AC, Arweinydd y Cyngor- y Cynghorydd Ieuan Williams a Phrif Weithredwr y Cyngor - Richard Parry Jones yn aelodau o’r Panel.

**Argymhelliad 17: dylid annog “Hyrwyddwyr Aelodau” ym mhob cyngor i chwarae rôl allanol i annog pobl i gyfranogi mwy mewn llywodraeth leol.**

Mae’r Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Busnes yn bwriadu sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwr amrywiaeth ar draws Cymru ac mae wedi gofyn i bob awdurdod lleol benodi aelod o grŵp sy’n cael ei dangynrychioli i fod yn hyrwyddwr amrywiaeth. Mae’r mater hwn dan ystyriaeth. Disgwylir am wybodaeth bellach i weld sut y bydd y rhwydwaith hwn yn cael ei ddatblygu.

**Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru gydlynu ymgyrch, ynghyd â llywodraeth leol a phartneriaid perthnasol sy’n ymwneud â chydraddoldeb a dinasyddiaeth, i sicrhau bod ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol yn cael eu cynnal yn y 18 mis yn arwain at yr etholiadau lleol nesaf …**

Defnyddiwyd nifer o ddulliau gwahanol i godi proffil yr etholiadau lleol yn Ynys Môn yn 2013, gan gynnwys:

- Cyfres o hysbysebion a datganiadau yn y wasg leol ac ar wefan y Cyngor, ynghyd â Facebook
- Ymgyrch drwy Trydar i dargedu grwpiau merched a grwpiau pobl ifanc yn gofyn iddynt ledaenu’r neges.

Roedd yr ymgyrch yn llwyddiannus gyda 106 o ymgeiswyr ar gyfer 30 o seddau ar y Cyngor Sir.

**Argymhelliad 23: Dylai awdurdodau lleol nad ydynt eisoes yn darlledu eu cyfarfodydd ddechrau gwneud hynny, yn ogystal â manteisio’n llawn ar yr holl gyfryngau cymdeithasol eraill i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach.**

Dechreuodd Ynys Môn weddarlledu ar 9 Mehefin 2014 gyda chyfarfod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

## 3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried argymhellion Grŵp yr Arbenigwyr fel y cânt eu nodi yn atodiad 1.

**Huw Jones**
**Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd 12 Mehefin 2014**

Papurau Cefndir:
‘’-Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru Adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol -

http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/expert-group-report/?lang=en

# CYNLLUN GWEITHREDU AC AMSERLEN GRŴP YR ARBENIGWYR AC YMATEB LLYWODRAETH CYMRU



| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| **Gwella'r ymateb i'r arolwg** | | |
| 1. Dylai Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac Un Llais Cymru egluro pwrpas yr arolwg a'i bwysigrwydd. Dylai hyn gynnwys adroddiad ar brif bwyntiau'r arolwg cyntaf, er mwyn i'r rheini sy'n cael yr holiadur allu gwerthfawrogi ei bwrpas yn well. | Dylid llunio deunyddiau mewn da bryd i'w dosbarthu gyda'r arolwg ymgeiswyr yn etholiadau 2017. | Costau gweinyddol, dosbarthu ac ysgrifennu, yn debygol o gael eu cynnwys mewn cyllidebau presennol. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gefnogol. Byddwn yn cael trafodaethau gyda'r partïon awgrymedig eraill i fynd i'r afael â hyn mewn da bryd ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf.** | | |
| 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod modd llenwi a dychwelyd holiadur yr arolwg nesaf ar-lein. | Bydd angen cwblhau'r gwaith llunio a gweinyddu cyn etholiadau 2017. | Bydd y costau bach yn dod o dan gyllidebau y cytunwyd arnynt. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gytûn.** | | |
| 3. Dylid gwahanu'r arolygon ymgeiswyr ar lefelau sir a chymuned, a'u cynnal fel dau arolwg gwahanol. | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gytûn ar yr amod bod y ddau arolwg yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ac yn cymryd bod etholiadau i'r ddau lefel o lywodraeth leol yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod.** | | |
| 4. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu methodoleg sy'n golygu bod modd ddosbarthu holiaduron yr arolwg wrth ddelio â phapurau enwebu. | Bydd angen rhoi sylw i hyn yn ystod 2015/16 er mwyn rhoi digon o amser i weinyddwyr etholiadol gytuno arnynt ac i ddiwygio darpariaethau'r Mesur o bosibl. | Os bydd angen diwygio'r Mesur, bydd y gost yn dod o dan gyllidebau presennol. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gytûn o ran egwyddor. Byddwn yn adolygu'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall berthnasol i weld os yw'n bosibl ac yn ymarferol i wneud hynny. Wedyn, bydd angen cysylltu ag Awdurdodau Lleol ar y mater.** | | |
| 5. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno â llywodraeth leol i gyflogi un darparwr ymchwil i gynnal yr arolwg ar ran awdurdodau lleol yn yr etholiadau nesaf. | Dylid cytuno ar hyn o leiaf flwyddyn cyn yr etholiadau nesaf. | Dim cost ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu costau'r arolwg yn barod. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gytûn o ran egwyddor. Byddwn yn galw â'r CLILC i sicrhau penderfyniad ar y cyd gyda llywodraeth leol.** | | |
| **<u>Gwella'r wybodaeth o'r Arolwg</u>** | | |
| 6. Dylai Llywodraeth Cymru gymharu'r rhestr gwestiynau â'r rheini sy'n cael eu defnyddio mewn arolygon cynghorwyr mewn rhannau eraill o'r DU, a'u | Dylid cwblhau'r gwaith hwn yn 2015 rhag ofn y bydd angen diwygio'r Mesur. | Yn cael eu cynnwys mewn cyllidebau presennol. |

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| diwygio er mwyn gallu eu cymharu'n well. | | |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Byddwn yn archwilio'r rhinweddau ac ymarferoldeb yr argymhelliad hwn. Mae'n rhaid iddo beidio amharu ar brif nod yr arolwg, megis cynhyrchu mesuriadau o gynnydd dros amser.** | | |
| 7. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil i wella'r arolwg nesaf, gyda'r nod o gael data ansoddol o sampl o ymatebwyr ynghyd â chyf-weld â sampl o ymgeiswyr posibl a oedd wedi penderfynu peidio â sefyll yn ddiweddarach. | Bydd angen penderfynu erbyn mis Mai 2016 er mwyn cynnal yr ymarfer caffael. | Tua £10-15,000. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Byddwn yn ystyried rhinweddau'r argymhelliad hwn. Mae'r arolwg yn fwriadol hydredol ei natur.** | | |
| 8. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol archwilio'r data ar gyfer eu hardal eu hunain, a datblygu strategaethau i geisio gwella amrywiaeth mewn etholiadau yn y dyfodol. | Gallant fwrw ymlaen â hyn ar unwaith, ac eto ar ôl pob etholiad. | Byddai angen cynnwys y gost mewn cyllidebau presennol. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Argymhelliad i lywodraeth leol yw hwn, a rydym yn ei gefnogi o ran egwyddor.** | | |
| 9. Dylai awdurdodau lleol gynnal cyfweliadau ymadael â chynghorwyr sy'n penderfynu peidio ailsefyll, er mwyn asesu'r rhesymau dros hynny. Dylai CLILC | Dylid cynnal y cyfweliadau yn 2016-17 ar ôl gwneud penderfyniadau am ymgeiswyr, a llunio'r adroddiad yn 2017. | Dim cost ychwanegol i'r cyllidebau presennol. |

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| gasglu data dienw a chyhoeddi adroddiad ar ôl pob etholiad cyffredin. | | |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Argymhelliad i lywodraeth leol a CLILC** | | |
| **<u>Camau i bleidiau gwleidyddol</u>** | | |
| 10. Dylai pleidiau gwleidyddol a llywodraeth leol ei hun annog menywod sy'n llwyddiannus i fod yn fentoriaid, gan ymgysylltu â rhwydweithiau lleol priodol. | Mae modd rhoi hyn ar waith ar unwaith. | Bydd y gost yn dod o dan gyllidebau presennol. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Er nad yw hwn yn argymhelliad i Lywodraeth Cymru, rydym yn ei gefnogi a byddwn yn cysylltu â llywodraeth leol a'r pleidiau gwleidyddol i'w ddatblygu.** | | |
| 11. Dylid annog yr holl brif bleidiau gwleidyddol i ddatblygu strategaethau a fydd yn arwain at enwebu menywod yn ymgeiswyr mewn o leiaf 40% o'r seddi hynny y mae'r blaid o dan sylw yn credu y gall eu hennill yn yr etholiadau lleol nesaf. | Dylid rhoi hyn ar waith mewn da bryd cyn dechrau'r broses o ddewis ymgeiswyr ar gyfer 2017. | Dim cost ychwanegol amlwg. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gefnogol. Gofynnir i Arweinwyr y pleidiau gwleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Senedd gefnogi'r argymhelliad hwn yn eu pleidiau eu hunain.** | | |
| 12. Dylai arweinwyr y prif bleidiau gwleidyddol ymrwymo | Dylent ystyried hyn yn eu hymatebion i'r Adroddiad. | Dim cost. |

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| i'r targed hwn yn gyhoeddus. | | |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Argymhelliad i bob arweinydd.** | | |
| **<u>Gwella cyfranogiad mewn llywodraeth leol</u>** | | |
| 13. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â CLILC, grwpiau cydraddoldeb ac, os yw'n briodol, Llywydd y Cynulliad, i sefydlu cynllun cysgodi/mentora yn ystod y ddwy flynedd cyn yr etholiadau lleol nesaf. Byddai modd ehangu hyn i gynnwys cynghorau tref a chymuned, ar y cyd ag Un Llais Cymru. | Byddai'r rhaglen ar waith yn 2015 a 2016. Byddai angen gwneud gwaith paratoi yn ystod ail hanner 2014. | Cost cydlynydd prosiect, costau gweinyddol a threuliau. Tua £30,000 y flwyddyn am ddwy flynedd a hanner. Byddai'n bosibl rhannu'r costau rhwng y cyrff o dan sylw. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gefnogol. Byddwn yn cysylltu â'r cyrff eraill sy'n cael eu henwi er mwyn datblygu cynllun cysgodi mewn llywodraeth leol yng Nghymru yn 2015/16.** | | |
| 14. Dylai awdurdodau lleol annog ysgolion uwchradd i drefnu i gynghorwyr lleol siarad â myfyrwyr ysgol am eu rôl, fel rhan o'r nod "Dinasyddiaeth Weithgar" yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Dylid annog cynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan yn hyn. | Dylid cytuno ar hyn yn ardal pob awdurdod lleol, ond mae modd bwrw ymlaen â'r mater ar unwaith. | Dylid cynnwys y gost mewn cyllidebau presennol. |

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Argymhelliad i lywodraeth leol.** | | |
| 15. Dylai cynghorau cymuned fanteisio ar ddarpariaethau'r Mesur i gyfethol "cynghorwyr" ifanc i rôl heb bleidlais. Dylai cynghorau sir ystyried manteision mabwysiadu gweithdrefnau tebyg, gan gynnwys creu Cabinetau Ieuenctid "Cysgodi". Dylid cynnal ymgyrch gydag Un Llais Cymru a phartïon eraill â buddiant i roi hwb i gynghorau tref a chymuned i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl y cynghorau a'u llwybr posibl i fywyd gwleidyddol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. | Dylai hyn fod yn ymgyrch barhaus ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad. | Bydd angen cytuno ar hyn mewn trafodaethau cyllid rhwng OVW a Llywodraeth Cymru. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gefnogol. Byddwn yn cynnal trafodaethau gyda Un Llais Cymru a CLILC i'w roi ar waith.** | | |
| 16. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwerthuso'r prosiect Ceisio am Swydd Etholiadol a gynhaliwyd yn ystod yr etholiadau yn Lloegr, ac ystyried cyflwyno cynllun tebyg ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf. | Ar ôl i Swyddfa Cydraddoldeb Llywodraeth y DU gyhoeddi ei gwerthusiad. Byddai angen rhoi'r cynllun ar waith o leiaf flwyddyn cyn yr etholiadau. | Yn dibynnu ar y galw, ond mae'n debygol y byddai angen tua £10,000 wrth gefn. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gefnogol. Byddwn yn ystyried canlyniadau cynllun Llywodraeth y DU a chysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl cyn penderfynu a byddwn yn gweithredu'r cynllun hwn ar gyfer etholiadau yng Nghymru.** | | |
| 17. Dylid annog "Hyrwyddwyr Aelodau" ym mhob cyngor | Dylai pob awdurdod lleol fynd ar drywydd | Bydd y gost yn dod o |

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| i chwarae rôl allanol i annog pobl i gyfranogi mwy mewn llywodraeth leol. | hynny ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. | dan gyllidebau presennol. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gefnogol. Byddwn yn cysylltu a CLILC a'i rwydweithiau Cymorth Aelodau a Hyrwyddwyr i ddatblygu hwn.** | | |
| 18. Dylid annog pob cynghorydd i fentora darpar ymgeisydd olynol ar gyfer ei sedd. | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Argymhelliad i lywodraeth leol a'r pleidiau gwleidyddol.** | | |
| 19. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ac addysgol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phartneriaid perthnasol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a dinasyddiaeth, i sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybodaeth am lywodraeth leol a bod y syniad o fod yn weithgar mewn llywodraeth leol yn cael ei gyfleu yn y gymuned. | Dylai'r ymgyrchoedd ganolbwyntio ar 2015/16, er mwyn creu diddordeb ar gyfer etholiadau 2017. | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau arbenigedd drwy secondiadau mewnol neu gontractau tymor sefydlog, gyda chost bosibl o £30,000. Bydd angen i CLILC ac eraill gytuno ar y costau cyhoeddusrwydd, ond maent yn debygol o fod tua £40,000. |

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gefnogol. Bydd hyn yn rhan o ymgyrch gan Lywodraeth Cymru a'i bartneriaid i hybu amrywiaeth. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddiogelu'r adnoddau i hyn.** | | |
| 20. Ymgyrch barhaus, yn gysylltiedig â phwynt 18 uchod, i sicrhau bod yr angen i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn dal yn amlwg ymhlith y cyhoedd, ac i gadw cysylltiad â rhwydweithiau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai hyn gynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i fodelau rôl, wedi'i dargedu er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd priodol. | Dechrau yn ystod ail hanner 2014, ac yn barhaus ar ôl hynny. | Dylid cysylltu costau gweinyddu a chydlynu prosiect â phwyntiau 13 a 18 uchod. Sefydlu grŵp llywio i oruchwylio'r gwaith. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gytûn. Mae'r ymateb blaenorol yn gymwysiadol.** | | |
| 21. Dylai'r ymgyrch hon hefyd gynnwys cydweithio â chyflogwyr er mwyn ei gwneud yn haws i'w gweithwyr fod yn aelodau cyngor. Dylai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddangos esiampl drwy ei gwneud yn haws i'w gweithwyr sefyll a gwasanaethu fel cynghorwyr. | Ymgyrch barhaus a fydd yn dechrau yn ystod ail hanner 2014. | Fel yr uchod. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gefnogol. Codir y fater hon gyda'r Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Lleol.** | | |
| 22. Dylid annog sefydliadau yn y sector preifat, yn | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
|---|---|---|
| enwedig y rheini sy'n elwa o brosesau caffael Llywodraeth Cymru, i gefnogi staff sy'n dymuno gwasanaethu fel cynghorwyr, fel rhan o'u rhaglenni Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Dylid gofyn i CBI gefnogi'r nod hon. | | |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gytûn o ran egwyddor.  I'w godi gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain a grwpiau cyflogwyr eraill.** | | |
| 23. Dylai awdurdodau lleol nad ydynt eisoes yn darlledu eu cyfarfodydd ddechrau gwneud hynny, yn ogystal â manteisio'n llawn ar yr holl gyfryngau cymdeithasol eraill i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach. | Dylai pob awdurdod lleol ystyried hynny ar ôl i'r Adroddiad gael ei gyhoeddi. | Bydd y gost yn dod o dan gyllidebau presennol. (Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid cychwynnol ar gyfer hyn yn barod). |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gefnogol, ond mater i awdurdodau unigol i benderfynu.** | | |
| 24. Dylai Llywodraeth Cymru werthuso effeithiolrwydd y gwelliannau a gyflwynwyd drwy'r Mesur i weld pa mor effeithiol y maent wedi bod o ran cyflawni nodau'r Panel Arbenigwyr. | Dylid gwerthuso'r Mesur yn ystod 2014/15. | Tua £25,000. |

| Argymhelliad | Pryd | Cost |
| --- | --- | --- |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru: Yn gytûn.  Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys hwn o fewn ei hymchwil a rhaglen gwerthuso yn y ddwy flynedd nesaf.** | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 18 Mehefin 2014 |
| Teitl: | Mynychu o Bell |
| Awdur: | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd |

**1.0 Cefndir**

1.1 Bydd Aelodau yn ymwybodol fod y mater hwn wedi bod gerbron y Pwyllgor yn y goffennol.

1.2 Mae'r pwnc hwn wedi ei gynnwys ar Flaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor. Mae adroddiad y bwriedir ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ynghlwm sydd yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ac ystyriaethau ynghylch mynediad o bell. Cyn fod y mater yn mynd gerbron y Pwyllgor Gwaith, gofynnir i'r Pwyllgor hwn wneud sylwadau ar y materion yn yr adroddiad a chyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith/Cyngor.

**2.0 Argymhelliad**

2.1 Ystyried y materion a nodir yn yr adroddiad a chyflwyno sylwadau.

**Huw Jones**
**Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd** **10 Mehefin 2014**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith a’r Cyngor |
| **Dyddiad:** | Pwyllgor Gwaith ......................... 2014<br>Cyngor ....................................... 2014 |
| **Pwnc:** | Mynychu o Bell |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Alwyn Rowlands |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Awena Parry – (Cyfreithwraig) (Llywodraethu Corfforaethol)<br>01248 752563 |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION:**

Bod y Cyngor yn:

1. Nodi’r Adroddiad a’r disgresiwn a roddir yn Adran 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
2. Peidio gweithredu trefniadau mynychu o bell ar hyn o bryd neu gyfarwyddo swyddogion i ymchwilio i’r goblygiadau TGCh, staffio a chost sy’n gysylltiedig â gweithredu trefniadau mynychu o bell.

**RHESYMAU:**

Mae Adran 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a’r Canllawiau Mynychu o Bell (sydd newydd ddod i rym) yn galluogi rhai aelodau etholedig i fynychu cyfarfodydd “o bell”. Hynny yw, mynychu trwy gyswllt clyweledol, yn hytrach nag yn bersonol. Nid yw'r disgresiwn hwn wedi ei gyfyngu i gyfarfodydd y Cyngor llawn.

Fodd bynnag, mae gweithredu’r trefniadau hyn yn golygu bod raid cydymffurfio gyda nifer o ofynion technegol yn y Mesur. Felly, rhaid i aelod sy'n mynychu trwy gyswllt clyweledol fedru gweld a chlywed y rheini sy’n siarad yn y cyfarfod, a rhaid i’r rheini sydd yn y cyfarfod fedru gweld a chlywed y sawl sy’n defnyddio’r cyswllt clyweledol. Yn ogystal, rhaid i bawb sy’n defnyddio cyswllt clyweledol fedru gweld a chlywed ei gilydd a medru gweld a chlywed unrhyw aelod o’r cyhoedd sydd â hawl i siarad yn y cyfarfod, er enghraifft, yn y Pwyllgor

Cynllunio a Gorchmynion, neu pryd gwahoddir y cyhoedd i siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Sgriwtini.

Bydd yr Aelodau yn sylweddoli bod y gofynion yn fwy cymhleth na'r cynllun peilot ar gyfer gweddarlledu sydd newydd ddechrau, ac y gall bod heriau technegol sylweddol iawn, yn ogystal â chostau uniongyrchol ac anuniongyrchol ychwanegol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu trefniadau mynychu o bell.

Mae pryderon ynghylch agweddau technegol gweithredu’r cynllun yn cynnwys:

- risg y bydd y dechnoleg yn methu yn ystod y cyfarfod gan amharu ar y cyfarfod;

- cyfyngiadau o ran lled band;

- methiant aelod i gymryd rhan mewn trafodaeth o ganlyniad i anawsterau technegol a fyddai’n cael effaith ar ddilysrwydd y penderfyniadau a fyddai’n cael eu gwneud yn y cyfarfod, yn arbennig felly pan fo’r bleidlais yn agos;

- materion preifatrwydd (yn y fan lle mae aelod yn cymryd rhan o bell) pan fo’r eitem dan drafodaeth yn eitem sydd wedi ei heithrio (h.y. pan fo’r cyhoedd a’r wasg wedi eu cau allan o’r cyfarfod dan Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth) .

Mae’n debygol hefyd y bydd goblygiadau staffio, gan efallai y byddai’n rhaid cael aelod o staff TGCh i fod wrth law yn y lleoliad gyda’r aelod sy’n defnyddio’r cyswllt clyweledol, a hynny er mwyn sicrhau bod y dechnoleg yn gweithio'n iawn a bod aelodau’n cael y cymorth priodol.  Byddai angen darparu hyfforddiant i swyddogion ac unrhyw aelodau a fyddai efallai’n dymuno mynychu o bell; er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r agweddau cyfreithiol ond yn bennaf i ddelio ag unrhyw faterion technegol ac ymarferol a fyddai’n codi.

Mae angen cydnabod materion cydraddoldeb hefyd fel rhwng yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Efallai felly y byddai angen cael cyfleusterau cyfieithu lefel uwch; a hyd yn oed cyfieithydd wrth law efallai yn y lleoliad ar gyfer yr aelod sy’n defnyddio’r cyswllt clyweledol o bell.  Fel rhan o unrhyw benderfyniad i weithredu’r trefniadau hyn, byddai’n rhaid i’r Cyngor benderfynu ar nifer uchaf yr aelodau y byddai'n caniatáu iddynt fynychu o bell ar gyfer unrhyw gyfarfod, ac i  nodi’r cyfarfodydd y caniateir i’r aelodau fynychu o bell ynddynt.

Gan mai mater dewisol yw mynychu o bell gofynnir i’r aelodau ystyried yr argymhellion uchod a rhoi cyfarwyddiadau i swyddogion ynghylch sut i fwrw ymlaen.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

| |
|---|
| Y ddau opsiwn – peidio â defnyddio’r disgresiwn hwn, neu ymchwilio iddo’n fanylach ac adrodd yn ôl i’r Pwyllgor Gwaith/Cyngor – mae’r ddau opsiwn hyn wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Nid penderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith yw hwn.<br><br>Er mwyn gweithredu’r cynllun, byddai’n rhaid, ymysg pethau eraill, wneud newidiadau i reolau gweithdrefn y Cyngor ac felly mater i’r Cyngor yw hwn yn y pen draw. Fodd bynnag, yn achos newid i’r Cyfansoddiad, mae cyfle i’r Pwyllgor Gwaith fynegi ei farn a chyflwyno argymhelliad i’r Cyngor. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Efallai ddim, ond byddai’n rhaid cael asesiad cynhwysfawr o’r costau. |

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** |
|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1. Rhan 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011<br>2. Canllawiau Mynychu o Bell |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 18 Mehefin 2014 |
| Teitl: | Rheoliadau Absenoldeb Teuluol |
| Awdur: | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae'r pwnc hwn wedi ei gynnwys ar Flaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor. Mae adroddiad y bwriedir ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ynghlwm sydd yn nodi gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o safbwynt absenoldeb teuluol, darpariaethau allweddol a sefydlu Is-bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cynnal gwrandawiadau apêl.

**2.0 Argymhelliad**

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor wneud sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith/Cyngor ar y materion a nodir yn yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd** **10 Mehefin 2014**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **Pwyllgor Gwaith .......................... 2014**<br>**Cyngor ........................................ 2014** |
| **Pwnc:** | **Rheoliadau Absenoldeb Teuluol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Awena Parry – Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol)**<br>**Est. 2563**<br>**apxce@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor:

(i) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad;

(ii) Sefydlu Is-Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cynnal gwrandawiadau Apêl dan y Mesur;

(iii) Pan fo Aelod yn cymryd absenoldeb teuluol dan y Rheoliadau ac yn derbyn uwch gyflog, rhoddir gorau i dalu'r uwch gyflog hwnnw yn ystod cyfnod yr absenoldeb teuluol. Bydd yr Aelodau yn dal i fod yn gymwys i gael y lwfans sylfaenol;

(iv) Bydd gan y Prif Weithredwr awdurdod a ddirprwywyd gan y Cyngor i ddileu cyfnod o absenoldeb teuluol neu i ddod ag ef i ben os nad yw'n dod o dan delerau'r Rheoliadau.

**RHESYMAU**

Mae Rhan 2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn cyflwyno hawl newydd i gyfnod o absenoldeb teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol cyn belled â bod yr Aelodau hynny'n cwrdd â'r amodau a nodir yn y Rheoliadau newydd a gyhoeddwyd.

**MATERION**

Mae yna bum math o absenoldebau teuluol y gall Aelod fod â hawl iddynt dan y Mesur, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Y rhain yw:

(i) **Absenoldeb mamolaeth** – (hyd at 26 wythnos);

(ii) **Absenoldeb plentyn newydd-anedig** – (hyd at bythefnos);

(iii) **Absenoldeb mabwysiadwr/mabwysiadwraig newydd** – (hyd at bythefnos);
(iv) **Absenoldeb mabwysiadu newydd** – (hyd at bythefnos); a
(v) **Absenoldeb rhiant** – (hyd at 3 mis).

Mae diffiniadau llawn o bob un o'r absenoldebau hyn i'w gweld yn Atodiad 1.

- Mae'r Rheoliadau'n nodi'r darpariaethau isod:-

(i) Rhaid i'r Aelod roi rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ("PGD") o fwriad i gymryd absenoldeb teuluol, ynghyd â'r dyddiad pryd y bydd yr absenoldeb yn cychwyn ac yn dod i ben;
(ii) Rhaid i'r PGD gadw cofnod o'r holl hysbysiadau a'r holl gyfnodau o absenoldeb teuluol;
(iii) Os bydd y PGD yn rhoi gwybod i'r Cyngor bod ganddo ef/hi le rhesymol i amau nad oes gan Aelod hawl efallai i'r absenoldeb y rhoddwyd gwybod amdano, gall y Cyngor ddileu'r absenoldeb neu ddwyn yr absenoldeb i ben, neu ddirprwyo awdurdod i wneud hynny i'r Prif Weithredwr neu Swyddog priodol arall;
(iv) Yr opsiwn i Aelod barhau i ddod i gyfarfodydd penodol neu gyflawni dyletswyddau penodol yn ystod cyfnod o famolaeth neu absenoldeb rhiant, ar yr amod y cafwyd caniatâd gan Gadeirydd y Cyngor;
(v) Bod rhaid cynnwys darpariaethau yn y rheolau sefydlog ynghylch unrhyw ddyletswyddau y gellir caniatáu i'r Aelodau barhau i'w cyflawni yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol;
(vi) Bod rhaid i'r Cyngor benodi Panel ac arno dri Aelod (na all gynnwys Cadeirydd y Cyngor) i wrando a phenderfynu ar apeliadau gan Aelodau;
(vii) Hawl i Aelod gyflwyno apêl i'r Panel yn erbyn penderfyniad y Cyngor (neu yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Swyddog gydag awdurdod a ddirprwywyd) nad oes gan yr Aelod hawl i absenoldeb teuluol yn dilyn cyfeiriad gan y PDG; ac / neu yn erbyn penderfyniad gan Gadeirydd y Cyngor i wrthod caniatâd i'r Aelod barhau i fynychu cyfarfodydd penodol neu gyflawni dyletswyddau penodol yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol.

**GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi adroddiad atodol sy'n cynnwys y penderfyniadau perthnasol isod:-

(i) Mae gan Aelod hawl i dderbyn cyflog sylfaenol pan fo'n cymryd absenoldeb teuluol dan y Rheoliadau, waeth beth yw cofnod presenoldeb yr Aelod cyn cychwyn yr absenoldeb;
(ii) Pan fo Aelod sy'n derbyn uwch gyflog yn gymwys i gymryd absenoldeb teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn yr uwch gyflog am gyfnod yr absenoldeb os yw'r Cyngor yn penderfynu felly;
(iii) Bydd gan unrhyw Aelod sy'n dirprwyo ar gyfer Aelod sy'n derbyn uwch gyflog ac sydd

| | |
|---|---|
| | wedi cymryd absenoldeb teuluol hawl i dderbyn uwch gyflog; |
| (iv) | Os yw talu'r uwch gyflog i'r dirprwy yn golygu bod y Cyngor yn mynd y tu hwnt i uchafswm yr uwch gyflogau a ganiateir, ni cheir mynd dros yr uchafswm am y cyfnod y telir uwch gyflog i'r dirprwy heb yn gyntaf gael caniatâd y Gweinidog; a |
| (v) | Pan fo Cyngor yn cytuno i gael dirprwy ar gyfer aelod sydd wedi cymryd absenoldeb teuluol, rhaid i'r Panel gael gwybod cyn pen 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, gan gynnwys manylion am y swydd benodol ac am ba hyd y bydd yr Aelod yn dirprwyo. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae'n rhaid gweithredu'r Rheoliadau ond mae rhai o'r elfennau ynghylch sut i'w gweithredu yn ddewisol . Hynny yw, yr argymhellion yn A uchod. Y dewisiadau eraill yw:-<br><br>(ii) Is-Bwyllgor o'r Cyngor<br>(iv) Nad yw unrhyw benderfyniad i ddiddymu yn cael ei ddirprwyo ac yn cael ei gymryd gan y Cyngor llawn<br><br>Ystyrir bod y ddau yn rhy anhylaw a biwrocrataidd. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Oherwydd y bydd gweithredu'r Rheoliadau yn golygu newidiadau i'r Cyfansoddiad nad oes ond modd iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** | |

| | | |
|---|---|---|
| | (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Hyd awdur yr Adroddiad - mae'r sylwadau wedi eu cynnwys yma. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | d/b |
| **5** | **Eiddo** | d/b |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | d/b |
| **7** | **Sgriwtini** | d/b |
| **8** | **Aelodau Lleol** | d/b |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | d/b |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac mae'r argymhellion hyn yn cydymffurfio gyda darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| (1) Diffiniadau a throsolwg o'r modd y neilltuir swyddogaethau. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1. Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013. http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/130322familyabsenceregsannex1en.pdf<br>2. Adroddiad Atodol Drafft – Absenoldeb Teuluol http://wales.gov.uk/irpwsub/home/publication/201415/draft-supp-report-family-absence/?lang=cy<br>3. Canllawiau Drafft Statudol a wnaed dan Adran 30 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/130322familyabsenceguideannex2en.pdf |

# Diffiniadau o Absenoldebau Teuluol

| Math yr Absenoldeb | Diffiniad |
|---|---|
| **Cyfnod Absenoldeb Mamolaeth** | Cyfnod o absenoldeb ar ôl i'r Aelod roi genedigaeth. |
| **Cyfnod Absenoldeb plentyn newydd-anedig (Absenoldeb Tadolaeth)** | Absenoldeb a ganiateir i "riant" y plentyn yn hytrach na'r fam. (h.y. y tad, gŵr, partner). |
| **Cyfnod Absenoldeb Mabwysiadwr/Mabwysiadwraig** | Cyfnod o absenoldeb ar gyfer y sawl sy'n mabwysiadu ac sy'n cychwyn pan leolir y plentyn gyda'r Aelod i'w fabwysiadu. (Absenoldeb Mabwysiadu) |
| **Cyfnod Absenoldeb Mabwysiadu Newydd** | Gall Aelod sydd â "pherthynas" gyda pherson arall sy'n mabwysiadu plentyn gymryd hyd at bythefnos o absenoldeb mabwysiadu newydd (h.y. wedi priodi â'r sawl sy'n mabwysiadu'r plentyn neu'n bartner iddo/iddi).<br>Os yw Aelod yn mabwysiadu plentyn gydag Aelod arall, gall un Aelod ddewis bod yn fabwysiadwr/fabwysiadwraig a derbyn absenoldeb mabwysiadwr/mabwysiadwraig, a byddai gan y llall hawl i gyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd. |
| **Cyfnod Absenoldeb Rhiant** | Cyfnod o absenoldeb a ganiateir i gynorthwyo Aelod i ofalu am blentyn yr oedd rhywun arall yn gyfrifol amdano cyn hynny. |

## Swyddogaethau partïon perthnasol

| Swyddog | Swyddogaeth |
|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (PGD) | • Derbyn hysbysiadau ynghylch absenoldeb teuluol, gan gynnwys hysbysu'r bwriad i gymryd absenoldeb, a hysbysiad ynghylch pa bryd y bydd yr absenoldeb yn cychwyn ac yn dod i ben.<br>• Cadw cofnod o'r holl hysbysiadau a rhoi gwybod i Gadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac Arweinydd pob Grŵp Gwleidyddol am unrhyw hysbysiadau a dderbyniwyd.<br>• Rhoi gwybod i'r Cyngor os nad yw'n ystyried bod gan yr Aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol.<br>• Ysgrifennu at yr Aelod i amlinellu unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Cyngor i ddileu'r cyfnod o |

| | |
|---|---|
| | absenoldeb cyn i'r cyfnod gychwyn neu tra bydd yn digwydd.<br>• Derbyn apeliadau gan Aelodau yn erbyn penderfyniad i beidio â chaniatáu absenoldeb (caiff yr apêl wedyn ei throsglwyddo i Gadeirydd y Cyngor). |
| **Cadeirydd y Cyngor** | • Derbyn hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad i ddileu absenoldeb teuluol a chyfeirio gwrando'r apêl i'r Panel Apêl Absenoldeb Teuluol.<br>• Penderfynu pa swyddogaethau y gall yr Aelod barhau i'w cyflawni yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol ar eu cais (ar ôl ymgynghori gydag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol).<br>• Gofyn i Aelod fynychu'n wirfoddol i bwrpas cael cworwm. |
| **Panel Apêl Absenoldeb Teuluol (Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd)** | • Cynnal gwrandawiadau ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniadau i ddod ag absenoldeb teuluol i ben.<br>• Cynnal gwrandawiadau os oes anghytundeb ynghylch pa ddyletswyddau y caniateir i Aelod barhau i'w cyflawni yn ystod cyfnod yr absenoldeb. |
| **Cyngor Llawn (Ond gan argymell dirprwyo i'r Prif Weithredwr neu unrhyw Swyddog sy'n gweithredu gyda'i awdurdod/hawdurdod)** | • Gall y Cyngor ddileu cyfnod absenoldeb Aelod cyn iddo gychwyn neu ddod â chyfnod absenoldeb teuluol i ben.<br>• Os yw aelod lleol yn methu â dychwelyd ar ôl bod yn absennol, dal y tâl yn ôl ar gyfer yr Aelod, yn amodol ar benderfyniad y Cyngor llawn. |
| **Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol** | • Hawl i gael gwybod am absenoldebau teuluol.<br>• Ymgynghorir â nhw ar benderfyniadau mewn perthynas â'r swyddogaethau y gall aelod barhau i'w cyflawni yn ystod cyfnod o absenoldeb. |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **08 MAI 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN DATBLYGU AELODAU – EBRILL 2014 – MAWRTH 2015** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **GOFYN I'R CYNGOR GYMERADWYO'R CYNLLUN DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MIRIAM WILLIAMS, UWCH SWYDDOG DATBLYGU ADNODDAU DYNOL** |

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod i ddarparu cyfleon hyfforddi a datblygu ar gyfer ei Aelodau a threfnu bod gwybodaeth yn cael ei adrodd i'r Cyngor yn flynyddol.

Yn ystod 2012/13 sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â Mesur Llywodraeth Leol(Cymru) 2011. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â hyfforddi a datblygu Aelodau.

Llynedd darparwyd rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant a gafodd ei llywio gan anghenion yr Aelodau a'r sefydliad ac a gefnogwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwnaethpwyd ymrwymiad i weithio tuag at ennill Statws Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Datblygu Aelodau. Mae'r Strategaeth presenol ynallweddol i ennill Statws y Siarter sy'n rhoi ffocws ar Ddatblygiad a Chefnogaeht parhaol i Aelodau.

Yn ei hanfod, mae'r Strategaeth yn ymwneud â deall anghenion Aelodau fel bod modd eu cefnogi'n well trwy ddarparu cyfleon datblygu priodol sy'n cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac o'r safon iawn.

Ers yr etholiad mae pob Aelod o'r Cyngor wedi cael disgrifiad swydd a manyleb person generig sy'n cynnwys cyfeiriad at gyfleon a gynigir gan yr Awdurdod ar gyfer datblygiad personol yr Aelodau a datblygu eu rôl.

Mae symud ymlaen gyda'r rhaglen ddatblygu a chynefino ar gyfer Aelodau yn hollbwysig. Mae'r Cynllun Hyfforddi sydd ynghlwm am y cyfnod Ebrill 2014 i Fawrth 2015 wedi ei baratoi i ddwyn sylw at y prif feysydd datblygu a gynigir yn ystod y cyfnod.

Bydd y rhaglen, cyn belled â phosib yn ceisio cwrdd â gofynion Aelodau h.y. cyfuniad o sesiynau dydd a nos a hefyd amrywiaeth o ran hyfforddiant h.y. gweithdai, mentora, e-ddysgu ac un i un a.y.y.b.

Bydd y ddogfen yn "rhaglen dreigl" o sesiynau yn seiliedig ar anghenion unigol yr Aelodau, ynghyd ag anghenion y Cyngor/cydranddeiliaid eraill, ond gan adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael. Fe fydd yr adolygiadau datblygiad personol a wneir gan Aelodau yn ystod y flwyddyn yn rhan bwysig o'r broses hon.

Bwriedir y bydd y cynllun yn gwneud cynnydd cadarnhaol pellach tuag at gefnogi Aelodau yn eu swyddogaethau, gwella safonau, datblygu arferion da a chefnogi'r gwaith wnaethpwyd ar gyfer ennill y Siarter Datblygu Aelodau diwedd llynedd.

Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cadw llygad ar gynnydd yn rheolaidd ac yn adolygu/diweddaru'r cynllun yn seiliedig ar anghenion yr Aelodau a'r sefydliad. Bydd y Pwyllgor Safonau hefyd yn cael adroddiadau fel sy'n briodol.

**ARGYMHELLIAD:**

Mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer Aelodau fel sydd wedi ei nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.**
**30.04.2014**

# CYNLLUN DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG/

# DEVELOPMENT PLAN FOR ELECTED MEMBERS

# EBRILL /APRIL 2014 – MAWRTH/MARCH 2015



**Mae'r Cynllun yma yn seiliedig ar wybodaeth wedi ei gasglu gan Swyddogion/Cynlluniau Datblygu Personol, Aelodau Etholedig/Anghenion Siarter Aelodau.**

**Bwriedir i'r cynllun gael ei ddiwygio'n briodol fel mae blaenoriaethau/deddfwriaeth yn newid/ ac bydd yn ddibynol ar argaeledd cyllidebau i'w gefnogi.**

**This Plan is based on information collated from Officers/Elected Member Personal Development Plans/Member Charter requirements**

**The intention is that the plan is amended appropriately as priorities/legislation changes. The plan is also dependent on availability of budgets to support.**

| PWNC<br><br>SUBJECT | CYNULLEIDFA<br><br>AUDIENCE | DYDDIAD<br><br>DATE |
|---|---|---|
| **Ymwybyddiaeth Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus/<br>Child Protection and Vulnerable Adults Awareness sessions** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Ebrill a Mai/<br>April and May<br>2014 |
| **Sesiynau Gweddarlledu/<br>Webcasting Sessions** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Ebrill a Mai/<br>April and May<br>2014 |
| **Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol/<br>Social Media Training** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Delio gyda'r Cyfryngau/<br>Dealing with the Media** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Adolygiad Cynlluniau Datblygu Personol/<br>Personal Development Reviews Review** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Medi/September 2014 |
| **Cyfansoddiad/<br>Constitution** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Diwygiad Lles/<br>Welfare Reform** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |

| | | |
|---|---|---|
| **Series of Finance/Audit sessions to include:**<br>• **Statement of Accounts**<br>• **Counter Fraud Arrangements**<br>• **Treasury Management**<br>• **Risk Management** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Mehefin/June 2014<br>Medi/September 2014<br>Hydref/October 2014<br>Rhagfyr/December 2014 |
| **Sesiwn Caffael/**<br>**Procurement Session** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Diweddaru Trwyddedu/**<br>**Licencing Updates** | Pwyllgor Trwyddedu/<br>Licencing Committee Members | Fel bô'r angen/<br>As and when required |
| **Cyfres o Hyfforddiant & Diweddariad Materion Cynllunio i gynnwys:/**<br>**Series of Planning Training & Updates to include:**<br>• **Sesiwn Comisiwn Dylunio Cymru/ Design Commission for Wales Session**<br>• **Diweddariad ar faterion Cynllunio/ update on Planning matters** | Pwyllgor Cynllunio/<br>Planning Committee | Fel bô'r angen/<br>As and when required |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth/gwybodaeth yn ymwneud â Ynys Ynni/Datblygiadau Mawr/**<br><br>**Series of awareness/information sessions regarding Energy Island/Major Developments** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Cyfres o sesiynau ar faterion Tai a Cymuned i gynnwys:/**<br>**Series of sessions relating to Housing and Community to include:**<br><br>• **Digartrefedd/Homelessness**<br>• **Tai Fforddiadwy/Affordable Housing**<br>• **Polisi Gosod/Letting Policy**<br>• **Deddf Tai/Housing Law**<br>• **Materion Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc/Caring and Young Carer Matters**<br>• **Eiriolaeth a Chyfranogiad Plant/Advocacy and Children's Participation**<br>• **Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)/**<br>**Social Services Bill (Wales)**<br>• **Diogelu a Rhiant Corfforaethol/ Safeguarding and Corporate Parenting**<br>• **Materion Oedolion/Matters relating to Adults** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfres o sesiynau yn ymwneud ag Addysg, megis:/<br>Series of sessions involving Education matters such as:**<br><br>• **Rôl Aelod Etholedig fel Llywodraethwr Ysgol/Role of Elected Members as School Governors**<br>• **Trosolwg o'r blaenoriaethau sydd yn wynebu ysgolion/Overview of the priorities facing schools** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Cyfres o sesiynau gyda'r Uwch Dim Rheoli gydag Academi Cymru/Series of sessions with the Senior Management Team Academi Wales** | Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol/<br>Executive and Shadow Executive | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |
| **Gwella Sgiliau Sgriwtini/<br>Enhanced Scrutiny Skills** | Aelodau o'r Pwyllgorau Sgriwtini/<br>Scrutiny Committee Members | Rhaglen i'w chadarnhau/<br>Programme to be agreed |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu Data/Materion Cyfrinachedd/<br>Awareness of Data Protection/<br>Confidentiality issues** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w gadarnhau/<br>To be confirmed |

| | | |
|---|---|---|
| **Cwrs Sgiliau Arweinyddiaeth CLILIC/<br>WLGA Leadership Skills Course** | Aelodau Penodol/Specific Members | Hydref – Rhagfyr/<br>October – December 2014 |
| **Sgiliau Cadeirio/<br>Chairing Skills** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Fel yr adnabyddir/<br>As and when identified |
| **Sgiliau TG/<br>IT Skills** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Fel yr adnabyddir/<br>As and when identified |
| **Sgiliau Iaith/Language Skills** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Fel yr adnabyddir/<br>As and when identified |
| **Mentora/Mentoring** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Fel yr adnabyddir/<br>As and when identified |
| **Ddysgu/<br>E Learning** | Holl Aelodau Etholedig/<br><br>All Elected Members | Fel yr adnabyddir/<br>As and when identified |

- Trefnir sesiynau ar gyfer Cynghorau Bro a Thref lle bô’r angen/
  Sessions for Town and Community Councils will be arranged as/when identified
- Bydd Aelodau o’r Pwyllgor Safonau ac Aelodau Lleyg yn cael gwahoddiad i rai sesiynau lle’n briodol /
  Where appropriate, Members of the Standards Committee and Lay Members will be invited to sessions

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 18 Mehefin 2014 |
| Teitl: | Grant Datblygu Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned – diweddariad |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid i Gynghorau Sir er mwyn iddynt gynnig grant o hyd at £500 yr un i gynghorau tref a chymuned, gan gynnwys y rhai hynny sydd â gwefan eisoes, i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

1.2 Pwrpas y grant oedd cynorthwyo cynghorau tref a chymuned i baratoi ar gyfer y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n cynnwys darpariaethau lle byddai'n ofynnol i bob cyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar wefan.

1.3 Fe ddywedais wrth y Pwyllgor hwn ar 1 Hydref 2013 bod £20,000 o gyllid wedi ei ddyrannu tuag at gynorthwyo cynghorau tref a chymuned Ynys Môn i ddatblygu gwefannau a bod y dyraniad wrthi'n cael ei ddosbarthu i gynghorau cymuned. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor hwn ar 30 Ionawr a 26 Mawrth 2014.

**2.0 Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

2.1 Roedd yr arweiniad gwreiddiol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod angen defnyddio'r arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae awdurdodau lleol bellach wedi cael awdurdod gan Lywodraeth Cymru i gario'r arian drosodd i'w ddefnyddio yn ystod 2014/15. Y rheswm am hyn yw er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd a galluogi cynghorau tref a chymuned i baratoi'n well ar gyfer y gofyniad i gael gwefan mewn lle erbyn y daw'r rhannau perthnasol o'r Deddf Democratiaeth Lleol (Cymru) 2013 i rym yn 2015.

2.2 Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf o ran dyrannu'r grant:

- 32 o gynghorau wedi hawlio'r grant
- 1 cyngor wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn parhau i ystyried y mater
- 1 cyngor wedi rhoi gwybod i ni y bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach yn ei gyfarfod nesaf
- 6 o gynghorau wedi rhoi gwybod i ni nad ydynt yn bwriadu hawlio'r grant

2.3 Rydym wedi atgoffa'r cynghorau cymuned hynny sydd heb hawlio'r grant hyd yn hyn bod yr arian yn parhau i fod ar gael iddynt ac wedi'u hannog i gymryd mantais o'r cynnig.

**3.0 Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** **10 Mehefin 2014**